GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

10 Awst 2010

TCC (Teledu Cylch Cyfyng) yn Ysbyty Gwynedd yn Sicrhau Euogfarnau o Drais ac Ymosodedd yn erbyn Staff y GIG

Mae'r peilot TCC yn Adran Frys Ysbyty Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau euogfarnau'n erbyn drwgweithredwyr sy'n dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff y GIG.

Gosodwyd y camerâu a'r microffonau ym mis Rhagfyr 2009 ac maent wedi bod yn hynod effeithiol wrth gasglu delweddau a recordiadau sain y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth yn erbyn drwgweithredwyr.

Sicrhawyd tair euogfarn eisoes o ganlyniad i'r dystiolaeth sain a fideo a gasglwyd gan y system newydd.

Mae gan staff yn yr Adran Frys fynediad rhwydd at fotymau panig yn y mannau triniaeth, sy'n gweithredu'r camera a'r microffon pan fydd unrhyw arwydd o drais neu ymosodedd. Yn ogystal, bydd swyddog yr heddlu sydd wedi'i leoli'n barhaol yn Ysbyty Gwynedd yn cludo camera corff fel rhan o'i lifrau a all hefyd recordio sain a fideo.

Prif fudd y system yw ei bod yn gweithredu fel ataliad, gan wneud i bobl feddwl ddwywaith cyn cam-drin staff. Arddangosir arwyddion clir i sicrhau ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r system a rhybuddir unigolion, a all o bosibl geisio cam-drin, bydd eu gweithredoedd yn cael eu dal ar y TCC.

Dywedodd Lee Garner, Rheolwr Diogelwch ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Mae staff yn hapus iawn gyda'r system newydd ac wedi gwneud deunydd ohoni i rybuddio cleifion ac ymwelwyr fod y cyfleuster yn bodoli ac i dawelu eu hymddygiad, sy'n arbed unrhyw sefyllfa beryglus posibl. Nid yw camdriniaeth staff y GIG yn cael ei oddef ac mae'r system hon yn ffordd effeithiol iawn o'u helpu i ymgymryd â'u dyletswyddau a gofalu am eu cleifion yn ddiogel heb ofn"

Mae Ysbyty Gwynedd yn un o bedwar ysbyty yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn prosiect peilot a gefnogir gan gyllid o £300,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. O ganlyniad, mae'r achosion canlynol wedi cael eu dwyn yn erbyn troseddwyr o ganlyniad i bartneriaeth agos rhwng y Bwrdd Iechyd a Heddlu Gogledd Cymru.

1. Cafwyd dau ddyn yn euog o fod yn ymosodol a threisgar tuag at staff wedi iddynt gal eu dal ar y system TCC. Derbyniodd y ddau ddirwy o £65.

2. Cyfaddefodd un dyn ei euogrwydd i Drosedd Trefn Gyhoeddus wedi i dystiolaeth sain gael ei chyflwyno fel rhan o'r erlyniad. Derbyniodd Ryddhad Amodol a gorchmynnwyd iddo dalu £85 o gostau.

3. Honnodd un troseddwr benywaidd fod meddyg yn dreisgar ac amhroffesiynol wrth ei thrin yn AB. Wrth roi triniaeth, tarodd y meddyg y botwm panic a recordio'r sefyllfa. Gwelwyd yn hwyrach o'r TCC a'r recordiad sain mai hi mewn gwirionedd oedd yn ymosodol. Rhyddhawyd y meddyg o unrhyw fai a chyfaddefodd y troseddwr i Drosedd Trefn Gyhoeddus ac fe'i cafwyd yn bod yn hiliol yn erbyn y meddyg. Derbyniodd Rybudd.

Am fanylion pellach, cysylltwch â:

Mr Trystan Pritchard **01248 384938**
Mrs Helen Granton **01248 384 939**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

August 10 2010

CCTV at Ysbyty Gwynedd Secures Convictions for Violence and Aggression Against NHS Staff

The CCTV Pilot at the Ysbyty Gwynedd Emergency Department has proved successful in securing convictions for offenders who are violent or aggressive towards NHS staff.

The cameras and microphones were installed in December 2009 and have proved to be highly effective in gathering images and sound recordings that can be used as evidence against offenders.

Three convictions have already been secured as a result of the audio and video evidence gathered by the new system.

Staff at the Emergency Department have easy access to panic buttons within treatment areas which can activate the camera and microphone at any sign of violence or aggression. In addition, the police officer permanently stationed at Ysbyty Gwynedd also carries a body camera as part of his uniform that can also capture audio and video.

The main benefit of the system is that it acts as a deterrent, making people think twice before abusing staff. Clear signage is displayed to ensure public awareness of the system and potentially abusive individuals are warned that their actions will be captured on CCTV.

Lee Garner, Security Manager at the Betsi Cadwaladr University Health Board said: “Staff are extremely happy with the new system and have utilised it to warn patients and visitors that the facility exists and to moderate their behaviour, which defuses potentially heated situations very quickly. Abuse of NHS staff will not be tolerated and this system is an extremely effective way of helping them to carry out their duties and care for their patients safely without fear.”

Ysbyty Gwynedd is one of four hospitals in Wales which is participating in a pilot project backed by £300,000 Welsh Assembly Government funding. This has resulted in the following cases which have been brought against offenders as a result of a close partnership between the Health Board and North Wales Police:

1. Two men were found guilty of being were abusive and aggressive towards staff after being captured on the CCTV system. Both received a fine of £65.

2. One man admitted his guilt to a Public Order Offence after audio evidence was submitted as part of the prosecution. He received a Conditional Discharge and was made to pay £85 costs.

3. One female offender alleged that a Doctor was abusive and unprofessional in his conduct when treating her at A&E. Whilst providing treatment, the doctor hit the panic button and recorded the situation. It was later found from the CCTV and audio recording that she was in fact the aggressor. The Doctor was exonerated, and the offender admitted a Public Order offence and was found guilty of being racially abusive towards the Doctor. She received a Caution.

For more information, please contact:

Mr Trystan Pritchard **01248 384938**
Mrs Helen Granton **01248 384 939**